Cam-drin plant

Amdano'r daflen ffeithiau hon

Mae'r daflen ffeithiau hon yn trafod yr hyn ddylech wneud ynglŷn â cham-drin plant, i bwy y dylech ei riportio a'r hyn allai ddigwydd pan fyddwch yn gwneud.

Beth yw cam-drin plant?

Cam-drin plant yw pan fod rhywun yn trin plentyn yn anghywir, gan niweidio iechyd neu ddatblygiad personol plentyn. Mae plentyn yn dioddef o gamdriniaeth os yw:

- wedi cael ei anafu'n gorfforol
- yn dioddef o gamdriniaeth rywiol
- yn dioddef o gamdriniaeth emosiynol
- yn cael ei esgeuluso.

Esgeuluso plentyn
Rydych yn esgeuluso plentyn os nad ydych yn gofalu amdanynt yn gywir, er enghraifft, drwy fethu â'u diogelu rhag perygl, oerni neu newyn. Nid oes rhaid i hyn fod yn fwriadol. Gallwch hefyd fod yn esgeuluso plentyn os nad ydych yn rhoi digon o gariad neu sylw iddynt. Mae'n bosib bod plentyn wedi cael ei esgeuluso os nad yw'n tyfu'n gywir.

Mae'n bosib eich bod yn esgeuluso plentyn os ydych yn ei adael adref ar ben ei hun. Nid yw hyn yn dibynnu ar oed y plentyn ond ar yr amgylchiadau a ph'un ai bod risg y gallai gael ei niweidio'n wael.

Riportio achos o gam-drin plant

Os ydych yn poeni bod plentyn yn cael ei gam-drin a hoffech ei riportio i rywun, mae yna lawer o bobl y gallwch droi atynt.

Hysbysu gwasanaethau plant yr awdurdod lleol am achos o gam-drin plant
Pan ydych yn hysbysu gwasanaethau plant yr awdurdod lleol am achos o gam-drin plentyn, mae'n rhaid iddynt feddwl bod yn risg go iawn i ddiogelwch neu les y plentyn. Bydd y gwasanaethau plant yn penderfynu os oes angen diogelwch ar y plentyn a'r hyn sydd angen ei wneud i'w ddiogelu. Os maen nhw'n penderfynu nad yw'r plentyn mewn perygl ar ôl gwneud yr ymholiadau cychwynnol, mae'n bosib na fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd.

Gallai eu hymholiadau bara sawl wythnos, a gallai gynnwys sawl cyfweliad, ymweliadau â'r teulu neu archwiliadau meddygol. Bydd y gwasanaethau plant yn cyfweld â'r plentyn ac unrhyw un sydd wedi bod mewn cysylltiad ag ef. Fel arfer, bydd y gwasanaethau plant yn dweud wrth riant y plentyn eu bod yn gwneud ymholiadau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gallant ddechrau gwneud ymholiadau cyn rhoi gwybod i'r rhieni.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mewn rhai achosion o gam-drin difrifol, ac ym mhob achos o gam-drin rhywiol, bydd y gwasanaethau plant yn dweud wrth yr heddlu. Weithiau, bydd y gwasanaethau plant yn cymryd camau brys er mwyn symud y plentyn o'r teulu a'i roi dan amddiffyniad yr heddlu.

Ar ôl iddynt wneud ymholiadau a chysylltu ag eraill, mae'n bosib gall y gwasanaethau plant gymryd camau pellach. Gallant argymell y canlynol:

- archwiliad gan yr heddlu
- gwneud cais am orchymyn llys am ganiatâd i roi'r plentyn mewn gofal
- gwneud cais am orchymyn llys er mwyn rhoi'r plentyn dan oruchwyliaeth yr awdurdod lleol neu swyddog prawf. Mae hyn yn golygu bydd y teulu yn cael help a chymorth fel bod y plentyn yn gallu aros adref.
- gwneud cynllun amddiffyn ar gyfer y plentyn.

Nid yw'r gwasanaethau plant yn aml yn argymell cymryd camau yn y llys neu erlyniad troseddol, ond mae hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Cynlluniau amddiffyn plant
Yn dilyn Cynhadledd Amddiffyn Plant a fynychwyd gan weithwyr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol arall a rhieni neu warcheidwaid y plant, gellid cynllunio cynllun amddiffyn plant i warchod y plentyn ac i gefnogi teulu'r plentyn.

Hysbysu'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
Gallwch hysbysu'r NSPCC o achos o gam-drin plant. Mae gan yr NSPCC linell gymorth gyfrinachol rad ac am ddim ar gyfer unrhyw un sydd am riportio achos o gam-drin plant (gweler Cymorth Ychwanegol am fanylion pellach). Pan ydych yn cysylltu â'r llinell gymorth, nid oes rhaid i chi roi eich manylion personol. Os ydych yn rhoi eich manylion, efallai y bydd angen i'r NSPCC eu rhoi i'r gwasanaethau plant neu'r heddlu, ond gofynnir iddynt beidio â'u trosglwyddo i'r person neu'r teulu sy'n eich pryderu.

Os ydych yn cysylltu â'r NSPCC, mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â'r broblem.

Hysbysu'r heddlu am achos o gam-drin plentyn
Os ydych yn hysbysu'r heddlu, mae'n rhaid iddynt archwilio'r achos. Os yw'r plentyn dan 16 oed, byddan nhw fel arfer yn cynnwys y gwasanaethau plant.

Mewn rhai amgylchiadau brys, gall yr heddlu gymryd plentyn o'i gartref a'i roi dan 'amddiffyniad yr heddlu' am hyd at 72 awr. Nid oes rhaid iddynt fynd i'r llys am ganiatâd i wneud hyn.

O ganlyniad i archwiliadau'r heddlu, mae'n bosib y cymerir camau cyfreithiol yn erbyn camdriniwr y plentyn. Os yw'r camdriniwr yn cael ei gymryd i'r llys ac yn ei gael yn euog, fe fydd yn cael ei gosbi a'i atal, o bosib, rhag cam-drin eraill yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r sicr bydd y camdriniwr yn ei gael yn euog.

Mae'n bosib y bydd rhaid i'r dioddefwr rhoi tystiolaeth yn y llys a gallai hyn fod yn annifyr iawn iddo. Fodd bynnag, mae cymorth ar gael ar gyfer tystion a, mewn rhai amgylchiadau, nid oes rhaid i'r dioddefwr fod yn y llys yn bersonol ond gallai roi

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

tystiolaeth drwy fideo neu gysylltiadau teledu byw.

Eraill y gellwch eu hysbysu am achos o gam-drin plentyn
Gallwch hysbysu nifer o bobl eraill o achos o gam-drin plentyn gan gynnwys: ymwelwyr iechyd; doctoriaid a staff ysbytai, gweithwyr ieuenctid a chymunedol; swyddogion prawf; athrawon a staff eraill yr ysgol, staff y feithrinfa; swyddogion lles addysg; seicolegwyr addysgol.

Dylech fod yn ymwybodol y gallai'r bobl hyn rannu eich pryderon â'r gwasanaethau plant neu'r heddlu.

Ailgartrefu oherwydd achos o gam-drin plentyn

Os ydych yn gofalu am blentyn sy'n cael ei gam-drin, gallech ofyn i adran dai eich awdurdod lleol i'ch helpu i'w ailgartrefu. Fodd bynnag, os ydych yn gwneud hyn, mae'n bosib y bydd yr awdurdod lleol yn gofyn cwestiynau am y gamdriniaeth, hyd yn oed os nad ydych yn dymuno rhannu unrhyw wybodaeth. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosib y bydd eich awdurdod lleol yn gallu ailgartrefu eich teulu, ailgartrefu'r camdriniwr neu ailgartrefu'r dioddefwr.

Mae yna hefyd nifer o gamau cyfreithiol y gellwch eu cymryd i atal y camdriniwr rhag aros yn ei gartref. Os hoffech wneud hyn, mynnwch gyngor cyfreithiol.

Os ydych yn rhiant i blentyn sy'n cael ei gam-drin, a'ch bod yn dioddef o **drais domestig**, mae'n bosib y gallwch symud i loches neu gael llety brys gan yr awdurdod lleol. Os ydych mewn sefyllfa debyg, mynnwch gyngor gan asiantaeth gynghori - gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Plant sy'n dioddef o gamdriniaeth

Os ydych yn blentyn sy'n dioddef o gamdriniaeth, gallwch gael cymorth drwy siarad â'r NSPCC neu Childline (gweler Cymorth Ychwanegol).

Mae'n bosib bod angen triniaeth feddygol brys arnoch, er enghraifft, i ddelio ag anafiadau, i gawl prawf beichiogrwydd, dulliau atal cenhedlu brys neu brofion HIV. Gallwch gael cymorth meddygol gan eich meddyg teulu, adran ddamweiniau ac argyfyngau brys eich ysbyty lleol neu glinig cynllunio teulu megis Canolfan Ymgynghorol Brook - gweler Cymorth Ychwanegol. Os ydych dan 16 oed ac mae gweithiwr iechyd proffesiynol yn drwgdybio eich bod yn cael eich cam-drin, mae'n rhaid iddo ddweud wrth yr heddlu, y gwasanaethau plant neu'r NSPCC, hyd yn oed os nad ydych am iddynt wneud.

Mewn rhai achosion, mae'n bosib y gallwch geisio am iawndal ariannol o'r camdriniwr. Cysylltwch â chanolfan ymgynghorol am hyn - gweler isod.

Gofyn am wiriad gan yr heddlu

Mae'n bosib eich bod yn poeni am rywun yr ydych yn ei adnabod sydd mewn cysylltiad â'ch plentyn, er enghraifft, partner newydd. O dan Gynllun o'r enw Cynllun Troseddwyr sy'n Cam-drin plant yn Rhywiol (a adwaenir hefyd fel Cyfraith Sarah),

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

gallwch chi ofyn i'ch heddlu lleol i wirio p'un ai bod gan y person hwnnw hanes o gam-drin plant neu droseddau eraill a allai olygu ei fod yn beryglus i'ch plentyn.

I wneud cais mae 'n rhaid i chi ymweld â'ch gorsaf heddlu lleol ac esbonio pam eich bod am iddynt wirio'r person hwnnw. Penderfyniad yr heddlu yw p'un i wirio'r person ai peidio a gallant wneud hyn heb ddweud wrth y person ei fod yn cael ei wirio.

Os yw gwiriad yn dangos bod rhywun yn risg i'ch plentyn, cewch wybod fel arfer, ond mae'n bosib y gofynnir i chi beidio â rhannu'r wybodaeth gyda phobl eraill nad oes angen iddynt wybod.

Cewch fwy o wybodaeth am y Cynllun yn www.parentsprotect.org.uk.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

NSPCC
Llinell gymorth: 0808 800 5000
E-bost: help@nspcc.org.uk
Gwefan: www.nspcc.org.uk

Childline
Llinell gymorth: 0800 1111
Cyfeiriad rhadbost: Rhadbost, NATN 1111, Llundain E1 6BR
Gwefan: www.childline.org.uk

Caiff pob galwad ei thrin yn gyfrinachol, ond os yw Childline yn drwgdybio perygl neu fygythiad i fywyd, byddant yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Byddant yn dweud wrth y plentyn nad oedd modd cadw cyfrinachedd.

Canolfan Ymgynghorol Brook
Llinell gymorth: 0800 018 5023
E-bost: admin@brookcentres.org.uk
Gwefan: www.brook.org.uk

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 23 Mawrth 2012, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr